# Cynllun Blynyddol Estyn 2026-2027

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Medr ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:
Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae hwn a holl gyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


**Rhagair y Prif Arolygydd ..... 5**

**Gweledigaeth Hirdymor ..... 4**

Y cyd-destun polisi ehangach ..... 6

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026-2027 ..... 8**

Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru ..... 11

Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr ..... 29

Amcan strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru ..... 35

Ein dull ..... 38

**Atodiad 1: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2026-2027 ..... 50**

**Atodiad 2: Ymweliadau interim cynlluniedig ag ysgolion a gynhelir ac UCDau 2026-2027 ..... 53**

**Atodiad 3: Arolygiadau monitro cynllunedig yn y sector annibynnol 2026-2027 ..... 54**

# Rhagair y Prif Arolygydd



Yn Estyn, mae ein diben yn glir: helpu i sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn elwa ar yr addysg a'r hyfforddiant gorau posibl. Rydyn ni yma dros ddysgwyr, dros Gymru. Mae'r diben hwnnw'n parhau i lywio ein gwaith ac mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn nodi sut byddwn yn cyfrannu dros y flwyddyn sydd i ddod trwy arolygu, cyngor, ymgysylltu a gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar wella.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn gweithio. Mae ein trefniadau arolygu presennol yn rhoi mwy o bwyslais ar ddeialog broffesiynol, rhannu arfer orau, ymgysylltu'n rheolaidd ac adborth clir sy'n cefnogi darparwyr i fyfyrio a gwella. Ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn benodol, mae'r cyfuniad o arolygiadau craidd ac ymweliadau interim wedi helpu i symud arolygu oddi wrth gael ei ystyried yn ddigwyddiad untro ac yn nes at berthynas mwy adeiladol a pharhaus gyda darparwyr. Yn ystod 2026–2027, byddwn yn adeiladu ar y dull hwnnw trwy adolygiad o'n trefniadau hanner ffordd drwy'r cylch, gan ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu gan ddarparwyr, ymarferwyr ac arolygwyr i fireinio'r hyn y byddwn yn ei wneud nesaf.

Eleni, mae ein blaenoriaethau'n adlewyrchu parhad a newid. Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglen arolygu craidd ledled Cymru, wrth gryfhau trefniadau arolygu diogelu, datblygu fframweithiau newydd ar gyfer prentisiaethau ac addysg gychwynnol athrawon, a chyflwyno trefniadau newydd mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir. Byddwn hefyd yn parhau i wella sut rydym yn cyfleu ein canfyddiadau fel eu bod yn ddefnyddiol, yn hygyrch

ac yn berthnasol i ymarferwyr, arweinwyr, dysgwyr a’r cyhoedd yn ehangach. Nid adrodd ar yr hyn a welwn yn unig yw ein huchelgais, ond sicrhau bod ein tystiolaeth yn cefnogi gwelliant ar draws y system.

Bydd darllen yn ffocws pwysig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. O fis Medi 2026 ymlaen, byddwn yn dechrau ffocws manylach tair blynedd ar ddarllen ar draws yr holl weithgarwch arolygu. Rydym yn gwybod bod gormod o ddysgwyr yng Nghymru nad ydynt hyd yn hyn wedi datblygu’r medrau darllen cadarn sydd eu hangen arnynt i fanteisio’n llawn ar y cwricwlwm a ffynnu mewn addysg, gwaith a bywyd. Rydym am ddefnyddio ein tystiolaeth arolygu, arweiniad a gweithgarwch ymgysylltu i gefnogi darparwyr i gryfhau llythrennedd a gwella deilliannau i bob dysgwr. Bydd yr ymdrech hon yn un genedlaethol ar y cyd, ac yn un sydd â’r potensial i wneud gwahaniaeth parhaol, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny y mae difreintedd yn effeithio arnynt fwyaf.

Byddwn hefyd yn parhau i ymateb i’r newidiadau ehangach sy’n digwydd ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae sefydlu Medr, cyflwyniad parhaus Cwricwlwm i Gymru, diwygio cymwysterau, datblygiadau mewn anghenion dysgu ychwanegol a phryderon parhaus ynghylch presenoldeb, tlodi a gallu arweinyddiaeth i gyd yn llywio’r cyd-destun y mae darparwyr yn gweithio ynddo. Ein rôl yw dod â thystiolaeth ynghyd ar draws sectorau, cynnig mewnwelediad annibynnol a chynorthwyo i ddatblygu polisïau trwy gyngor clir a chadarn.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu Estyn ei hun. Mae hynny’n cynnwys buddsoddi yn ein pobl, cryfhau ein systemau digidol a data, a pharhau i archwilio’n ofalus sut gall deallusrwydd artiffisial gefnogi ein gwaith a’n helpu i gyfathrebu’n fwy effeithiol. Mae hefyd yn golygu gwrando ar randdeiliaid, rhannu arfer effeithiol yn ehangach, a sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn rhan annatod o bopeth a wnawn. Drwyddi draw, byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn deg, yn dryloyw ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i ddysgwyr.

Un o’r agweddau mwyaf boddhaus ar fy rôl yw gweld ymrwymiad, medrau a gwytnwch gweithwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol ledled Cymru. Hoffwn ddiolch i’m cydweithwyr yn Estyn, ein harolygwyr allanol a phawb sy’n gweithio ar draws y system am eu proffesiynoldeb a’u hymroddiad parhaus. Mae gennym lawer i’w wneud yn y flwyddyn sydd i ddod, ond llawer i adeiladu arno, hefyd. Trwy weithio gyda’n gilydd, dysgu o’r dystiolaeth a chadw dysgwyr wrth wraidd ein penderfyniadau, gallwn barhau i gefnogi gwelliant ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Gweledigaeth Hirdymor

Estyn yw Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae arolygu'n chwarae rôl ganolog mewn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i'n plant, pobl ifanc a dysgwyr gydol oes. Mae dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn ac mae'r ymrwymiad hwn yn llunio ein gweledigaeth a'n cenhadaeth. Rydyn ni yma dros ddysgwyr, dros Gymru.




Mae ein hamcanion strategol yn nodi ein cyfraniad unigryw i helpu hybu rhagoriaeth ar draws y system ac mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu'r diwylliant sy'n sail i'n gwaith. Yn

ddiweddarach yn y cynllun hwn, rydym yn esbonio ein hamcanion strategol yn fanylach, ynghyd â sut rydym yn eu rhoi ar waith.

## Y cyd-destun polisi ehangach

Er bod Estyn yn annibynnol yn y modd rydym yn ymgymryd â'n gwaith, nid ydym yn gweithredu ar ein pen ein hunain. Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Medr i gyflawni ein cyfrifoldebau i arolygu, cynnig cyngor a helpu i sicrhau gwelliant.

Mae sefydlu Medr fel y corff unigol sy'n goruchwylio'r sector trydyddol yn ddatblygiad sylweddol. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â Medr i gryfhau a symleiddio ein trefniadau ar y cyd, ac i egluro ac ymwreiddio rôl Estyn mewn arolygu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Fframwaith Ansawdd a chyfeiriad strategol Medr, gan gynnwys y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol 2025-2030 Medr.

Mae ein blaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio wedi'u llunio gan y dirwedd polisi ehangach ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Gall newidiadau mewn polisi ddylanwadu ar yr hyn rydym yn canolbwyntio arno, sut mae ein fframwaith arolygu yn datblygu, a'r dulliau a ddefnyddiwn wrth werthuso ysgolion a darparwyr eraill addysg a hyfforddiant.

Mae nifer o ddiwygiadau mawr yn ail-lunio'r system, gyda goblygiadau sylweddol ar gyfer dysgwyr a darparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyflwyno parhaus Cwricwlwm i Gymru
- diwygio cymwysterau a'r cymwysterau cenedlaethol 14-16 newydd Cymwysterau Cenedlaethol 14-16
- y fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol Rheoleiddio - Medr
- y canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18
- Anghenion dysgu ychwanegol
- yr adolygiad o wasanaethau gwella ysgolion a threfniadau gwella ysgolion cysylltiedig (Llywodraeth Cymru 2023).

Gyda'i gilydd, bwriad y rhaglenni hyn yw cyflymu gwelliant a byddant yn parhau i ddylanwadu ar ddisgwyliadau, darpariaeth ac atebolrwydd ledled Cymru. Byddwn yn parhau i gydweithio'n gryf â Llywodraeth Cymru, Medr a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod gweithgarwch arolygu yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i gefnogi uchelgeisiau hirdymor, gan gynnwys:

- lleihau effaith tlodi ar ddysgu a chyrhaeddiad, fel y nodir yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru
- gwella presenoldeb dysgwyr a lleihau absenoldebau cyson, sy'n cyd-fynd ag arweiniad Llywodraeth Cymru ar wella presenoldeb mewn ysgolion
- cryfhau diogelu a llywodraethu ledled Cymru, gan sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi ymdrechion cenedlaethol i ddiogelu a gwella lles plant ac oedolion bregus Adolygu

gweithdrefnau llywodraethiant ac atebolrwydd ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Nghymru

- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un miliwn erbyn 2050 trwy Cymraeg 2050, a chefnogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg trwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun Cenedlaethol Medr ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol Y Gymraeg - Medr
- helpu i wireddu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 trwy Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- yr uchelgais i Gymru fod y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop trwy Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru
- yr uchelgais ar gyfer Cymru lle gall pobl anabl fwynhau hawliau cyfartal, cynhwysiant a chyfranogiad trwy'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl
- helpu i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel i fod yn fenyw Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026

Wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn cyfrannu at Gymru decach a mwy cynaliadwy, yn gyson â'r ffyrdd o weithio a'r uchelgeisiau sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.



# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026-2027

Yn ogystal â chyflawni ein hamcanion strategol sydd wedi'u nodi yn yr adran nesaf, mae'r camau gweithredu sy'n cael eu disgrifio yma yn nodi'r meysydd lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf dros y flwyddyn sydd i ddod.

## Cyflawni arolygiadau

### Trefniadau arolygu

Y ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd:

- cynnal ein hadolygiad o'n trefniadau arolygu hanner ffordd drwy'r cylch
- cryfhau ein trefniadau arolygu diogelu ar ôl adolygiad mewnol
- datblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer prentisiaethau ac AGA
- cyflwyno trefniadau arolygu newydd mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir
- peilota cyflwyno adroddiadau i ddysgwyr yn y sectorau ysgolion a gynhelir
- parhau â'n gwaith i gefnogi darparwyr sy'n peri pryder, yn enwedig ysgolion uwchradd a phob oed ac UCDau

### Darllen

O fis Medi 2026 ac am y tair blynedd nesaf, bydd gan bob gweithgarwch arolygu ffocws manylach ar ddarllen. Bydd golwg ychydig yn wahanol ar hyn ym mhob sector a chaiff ei gefnogi gan raglen hyfforddiant gynhwysfawr i'r holl staff arolygu cyn ei lansio ym mis Medi 2026. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd orau i werthuso ac adrodd ar ddeilliannau er mwyn sicrhau bod effaith y gwaith hwn yn glir ar draws pob sector. Darllen: Dros ddysgwyr, dros Gymru.

Ar ben hyn, byddwn yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau byw a rhithwir i rannu arfer orau gyda darparwyr addysg. Ein nod yw cefnogi pob darparwr addysg – o leoliadau meithrin nas cynhelir i ysgolion, colegau a gwasanaethau dysgu oedolion – i wella lefelau llythrennedd i bob dysgwr yng Nghymru.

## Galluogwyr sefydliadol

### Y Gymraeg

Byddwn yn datblygu polisi rhagweithiol i ddatblygu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y sefydliad, gan adeiladu ar waith presennol i ddarparu gwasanaethau yn unol â safonau'r Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn cryfhau ein cyfraniad at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg gweithredol erbyn 2050 ac yn cynyddu ein defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

### Ein strategaeth data a digidol

Byddwn yn arfogi ein pobl â'r dechnoleg sydd ei hangen arnynt i gyflawni ein hamcanion a gwella eu profiad o weithio, gan wneud y gorau o'n dysgu o ddeallusrwydd artiffisial (AI). Byddwn yn parhau i wella ein systemau, gan gryfhau rheoli adnoddau fel y gallwn gynllunio a defnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol.

### Ein strategaeth pobl

Ein pobl yw ein hased fwyaf. Bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu eu medrau a'u grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus, o ansawdd uchel sydd o fudd i ddysgwyr ac ymarferwyr addysg.

### Cyfathrebu

Byddwn yn manteisio ar fewnwelediadau o'n hymgysylltiad ag ymarferwyr ar draws sectorau er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael yr effaith fwyaf, yn cael eu cyfleu'n effeithiol ac yn cyflawni gwerth i ddysgwyr.


# Cyflawni ein hamcanion strategol

Nod ein hamcanion strategol yw gwella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru trwy ganolbwyntio ar:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr
- meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r ffordd rydym yn meddwl am ein gwaith – **ein meddylfryd** – yn ein helpu i:

- sicrhau'r gorau i bob dysgwr
- cynnig cyfle i arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyfrannu'n broffesiynol ac yn adeiladol
- rhannu'r hyn rydym wedi'i weld ledled Cymru i gefnogi gwelliant



## Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae Estyn yn cynnal arolygiadau i gefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant i bob dysgwr yng Nghymru. Mae ein dull yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae darparwyr yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd a llwyddo, a bydd adroddiadau arolygu yn amlygu'n glir pa mor dda y caiff dysgwyr eu cefnogi yn eu dysgu.

Prif ddibenion arolygu yw:

- gwerthuso ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant
- nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella
- cefnogi darparwyr ar eu taith tuag at ragoriaeth
- rhoi gwybodaeth glir a dibynadwy i rieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach am ansawdd addysg a hyfforddiant

Yn 2026–2027, byddwn yn cynnal 'adolygiad canol cylch' o'n trefniadau arolygu cyfredol i werthuso eu heffaith a'u heffeithiolrwydd. Ochr yn ochr â hyn, byddwn

- yn cryfhau ein trefniadau arolygu diogelu ar ôl adolygiad mewnol
- yn datblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer prentisiaethau ac AGA
- yn cyflwyno trefniadau arolygu newydd mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir
- yn ymwreiddio cyflwyniad adroddiadau i ddysgwyr

Mae gwybodaeth am ein prosesu arolygu ar gyfer 2026–2027 a thu hwnt, gan gynnwys amserlenni arolygu ac adroddiadau cyhoeddedig, ar gael ar y dudalen Arolygu ar ein gwefan.

Byddwn yn parhau i ddarparu dysgu a hyfforddiant proffesiynol o ansawdd uchel i arolygwyr Estyn ac arolygwyr allanol, er mwyn sicrhau y caiff arolygiadau eu cynnal mewn modd cyson, teg ac adeiladol, gyda ffocws cryf ar wella ac effaith gadarnhaol i ddysgwyr. Byddwn hefyd yn cefnogi darparwyr i ddeall ein fframweithiau arolygu a'u rhoi ar waith trwy gyfathrebu clir, arweiniad ymarferol ac adnoddau hygyrch.

Yn ystod arolygiad craidd, rydym yn asesu a oes angen unrhyw gymorth pellach ar y darparwr. Cyfeiriwn at hyn fel "gweithgarwch dilynol". Mae ein hymagwedd tuag at "weithgarwch dilynol" wedi'i hamlinellu dan bob adran. Mae'r gwahanol fathau o "weithgarwch dilynol" fesul sector i'w gweld yn ein llawlyfrau arweiniad ar y dudalen Adnoddau arweiniad arolygu ar ein gwefan.

Mae **Atodiad 1** yn amlinellu ein gweithgarwch arolygu craidd cynlluniedig, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Medr, ar draws pob sector ar gyfer 2026–2027. Mae'r cynllun blynyddol hwn wedi'i danategu gan raglenni gwaith manwl, gan gadw'r hyblygrwydd i addasu wrth i amgylchiadau newid.



## Darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru

### Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Mae 1,441 o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig, ynghyd â 25 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). O'r rhain, mae gan 132 o ysgolion a gynhelir ddarpariaeth chweched dosbarth, y mae ei helfen arolygu wedi'i hariannu gan Medr.

Bydd ysgolion a gynhelir ac UCDau yn cael arolygiad craidd ac ymweliad interim mewn cylch arolygu chwe blynedd.

Ar ôl arolygiad craidd, caiff adroddiad arolygu llawn ei gyhoeddi ar ein gwefan 45 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg clir o ganfyddiadau'r arolygiad, gan nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cyhoeddi adroddiad cryno byrrach a mwy hygyrch sydd wedi'i lunio'n benodol ar gyfer rhieni a gofalwyr. Eleni, byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiadau penodol wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr.

Bwriad ymweliadau interim yw cefnogi arweinwyr i adolygu cynnydd ers yr arolygiad craidd blaenorol a nodi blaenoriaethau i wella ymhellach. Nid ydynt yn arwain at farnau cyffredinol ynghylch effeithiolrwydd ysgol. Ar ôl ymweliad interim, byddwn yn rhoi adborth i'r pennaeth ac yn cyhoeddi llythyr byr ar ein gwefan yn crynhoi canlyniad yr ymweliad. Bydd ysgolion ac UCDau hefyd yn cael arweiniad ar y camau nesaf i gefnogi eu taith wella barhaus.

Yn ogystal â'r gweithgarwch arolygu craidd cynlluniedig a nodir yn **Atodiad 1**, mae **Atodiad 2** yn darparu manylion am ein gweithgarwch ymweliadau interim cynlluniedig. Mae'r ddau atodiad yn nodi gweithgarwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod arolygiad craidd, rydym yn ystyried a oes angen unrhyw gymorth pellach ar y darparwr. Rydym yn galw hyn yn 'weithgarwch dilynol'. Mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau, mae hyn yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth ac mae dau fath o weithgarwch dilynol statudol, sef:

- mesurau arbennig
- gwelliant sylweddol

Mae mesurau arbennig a gwelliant sylweddol yn mynnu gweithgarwch monitro gan arolygwyr Estyn, a fydd yn ymweld â'r ysgol neu'r UCD i werthuso cynnydd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn cyhoeddi manylion am weithgareddau monitro interim yn ystod gweithgarwch dilynol. Mae hyn oherwydd bod yr ymweliadau hyn o natur ddatblygiadol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad pan fydd ysgol a gynhelir neu UCD yn cael ei thynnu o

gategori gweithgarwch dilynol, neu os bydd yn symud o un categori gweithgarwch dilynol i un arall.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn ymestyn ein defnydd o arolygwyr cymheiriaid llwybr mewn arolygiadau, gan eu cynnwys yn aelodau o'r tîm mewn ymweliadau interim yn y sector cynradd
- yn adolygu'r cynllun peilot ar gyfer defnyddio Partneriaid Gwella Ysgolion mewn ymweliadau interim uwchradd a phob oed, a diwygio'r trefniadau, fel y bo'n briodol
- yn parhau i fonitro'n ffurfiol bob darparwr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygiad craidd
- yn parhau i ddatblygu ein gwaith i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder yn y sectorau uwchradd a phob oed yn benodol

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau trefniadau arolygu a gweithgarwch dilynol mewn ysgolion a gynhelir, gan arwain at werthuso craffach, her fwy effeithiol a chymorth targedig gwell. Byddem yn disgwyl gweld cynllunio gwelliant cliriach, cynnydd cryfach mewn ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt, ac ymyrraeth gynharach a mwy effeithiol ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder, yn enwedig yn y sectorau uwchradd a phob oed.

### Gwasanaethau addysg llywodraeth leol a'r sectorau gwaith ieuenctid

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys darpariaeth sy'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol neu ei chomisiynu gan awdurdodau lleol unigol, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y cyd ar draws awdurdodau. O 2026–2027 ymlaen, mae'r dirwedd gwella ysgolion yn newid. Bydd awdurdodau lleol yn uniongyrchol gyfrifol am drefniadau gwella ysgolion ac yn datblygu modelau sy'n adlewyrchu anghenion lleol. Byddant yn cydweithio'n agos â Dysgu ar lefel genedlaethol i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi gweithwyr proffesiynol addysg.

Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd trwy weithgareddau cyswllt parhaus.

Mae ein harolygiadau craidd yn ystyried ystod eang o feysydd gwasanaeth ac yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cynnig cymorth cydlynol ar gyfer addysg, hyfforddiant a lles plant a phobl ifanc.

Rydym hefyd yn cynnal ymweliadau estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, sy'n ystyried ac yn gwerthuso dwy agwedd benodol ar waith awdurdod lleol. Mae'r ymweliadau hyn wedi'u llunio i gefnogi gwelliant trwy nodi cryfderau a gofyn cwestiynau allweddol i'w hystyried ymhellach. Nid yw ymweliadau estynedig yn arwain ar farnau nac yn sbarduno arolygiadau.

Mae Archwilio Cymru yn gweithio ochr yn ochr â ni mewn arolygiadau craidd o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Yn ystod pob cylch arolygu chwe blynedd, byddwn yn cynnal y canlynol ar gyfer pob awdurdod lleol:

- un arolygiad craidd
- un ymweliad estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol
- gweithdai risg a sicrwydd blynyddol, yn cael eu cyflwyno ar y cyd ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Ar gyfer awdurdodau lleol, mae gennym un categori gweithgarwch dilynol, sef: awdurdod lleol sy'n peri pryder sylweddol. Pan gaiff ei nodi bod awdurdod lleol yn peri pryder sylweddol, rydym yn cadeirio cynhadledd wella i hwyluso'r gwaith o lunio cynllun gwella ôl-arolygiad. Ar ôl hynny, defnyddir ymweliadau monitro i wirio pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr gwasanaethau addysg arall yn symud ymlaen â'i gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad, a pha effaith y mae ei gamau gweithredu yn ei chael.

Caiff ein dull arolygu ar gyfer gwaith ieuenctid ei deilwra i gyd-destun penodol y sector. Rydym yn cymhwyso model hyblyg i waith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a, lle bo'n briodol, i sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwaith ieuenctid.

Trwy ein harolygiadau, rydym yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn cefnogi lles, cyfranogiad a datblygiad pobl ifanc. Mae ein gwaith yn cynnig mewnwelediad annibynnol i gefnogi gwelliant ar draws y sector ac i lywio blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn parhau â'r cylch o arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gyda 4

arolygiad craidd wedi'u cynllunio ar gyfer 2026-2027
- yn parhau i ddarparu cymorth arolygwyr cyswllt i awdurdodau lleol sy'n peri pryder, gan gynnwys cynnal cynadleddau gwella ac ymweliadau monitro, yn ôl y gofyn (gan ymgysylltu â Medr pan fydd y materion yn ymwneud â darpariaeth chweched dosbarth)
- yn parhau ag arolygiadau o waith ieuenctid statudol awdurdodau lleol ac arolygiadau o ddarparwyr gwaith ieuenctid gwirfoddol eraill, gyda 4 arolygiad wedi'u cynllunio ar gyfer 2026-2027

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau atebolrwydd a chymorth ar draws gwasanaethau addysg llywodraeth leol a'r sectorau gwaith ieuenctid trwy arolygu, her a gweithgarwch dilynol. Byddem yn disgwyl gweld cryfderau a meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n gliriach, cymorth gwell i awdurdodau sy'n peri pryder, ac ansawdd a chysondeb gwell mewn darpariaeth addysg a gwaith ieuenctid i blant a phobl ifanc.

### Darpariaeth trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid grant penodedig i ddatblygu darpariaeth trochi Cymraeg. Gall y cymorth hwn gael ei ddarparu trwy ganolfan trochi Cymraeg neu drwy athrawon peripatetig sy'n cefnogi hwyrddyfodiaid i'r iaith dros ystod o ysgolion. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu canolfannau trochi Cymraeg.

Cyflwynom ein trefniadau arolygu ar gyfer darpariaeth trochi Cymraeg yn 2024–2025 ac rydym wedi arolygu saith darpariaeth awdurdod lleol hyd yn hyn. Yn 2026–2027, byddwn yn parhau i ymwreiddio'r trefniadau hyn ac yn cynnal pedwar arolygiad pellach yn y sector hwn.

### Ysgolion annibynnol

Ar hyn o bryd, mae 77 o ysgolion annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae dros hanner ohonynt (45) wedi'u trefnu'n benodol i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sy'n aml yn canolbwyntio ar anghenion fel cyflwr ar y sbectrwm awtistig (ASC) neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Mae gweddill yr ysgolion yn cynnig cymysgedd o ddarpariaeth gynradd, uwchradd a phob oed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gydaddysgol, gyda nifer fach o ysgolion un rhyw, ysgolion ffydd ac ysgolion sy'n cynnig darpariaeth breswyl.

Rhaid i bob ysgol annibynnol gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 i aros ar y gofrestr.

Byddwn yn adeiladu ar yr amcanion a bennwyd yn 2025–2026, gan gryfhau ein trefniadau

arolygu a monitro. Bydd y fframwaith arolygu cyfredol a gyflwynwyd yn 2024 yn parhau i ffurfio sail arolygiadau craidd, gan gefnogi cydymffurfiaeth a gwelliant a draws y sector.

Bydd pob ysgol annibynnol yn cael:

- un arolygiad craidd fesul cylch arolygu, gan werthuso cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ac adrodd yn erbyn ein fframwaith arolygu (Atodiad 1)
- un arolygiad monitro fesul cylch, i gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â'r rheoliadau (Atodiad 3)
- ymweliadau dilynol, yn ôl y gofyn (hyd at dri), os na fydd ysgol yn bodloni'r safonau

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn parhau i werthuso cydymffurfiaeth ysgolion â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024
- yn monitro effaith y fframwaith arolygu diwygiedig er mwyn sicrhau ei fod yn hybu gwelliant parhaus
- yn cefnogi ysgolion y mae angen iddynt wella, gan sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu rhoi ar waith
- yn cadw ffocws cryf ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, gan sicrhau y caiff eu hanghenion eu bodloni ac y caiff cynnydd ei sicrhau
- yn darparu hyfforddiant targedig i arolygwyr i gryfhau arbenigedd mewn gwerthuso cydymffurfiaeth, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth ADY a chymhlethdod y rheoliadau
- yn parhau i gynnal ymweliadau dilynol ag ysgolion annibynnol ar ran Llywodraeth Cymru os na fydd ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau atebolrwydd a gwelliant mewn ysgolion annibynnol trwy sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 a chefnogi gweithgarwch dilynol effeithiol pan fydd angen gwelliant. Byddem yn disgwyl gweld cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn gryfach, mwy o gysondeb o ran ansawdd darpariaeth, cymorth a deilliannau gwella i ddisgyblion ag ADY, a mwy o hyder a chysondeb wrth arolygu trwy hyfforddiant targedig i arolygwyr.

**Colegau arbenigol annibynnol**

Mae naw coleg arbenigol annibynnol yn darparu addysg a chymorth lles i ddysgwyr sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn cadw ffocws cryf ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, gan sicrhau y caiff eu hanghenion eu bodloni ac y caiff cynnydd ei sicrhau
- yn monitro effaith y fframwaith arolygu diwygiedig er mwyn sicrhau ei fod yn hybu gwelliant parhaus
- yn cynnal o leiaf un arolygiad craidd yn y sector hwn, ynghyd ag o leiaf dri ymweliad monitro
- yn canolbwyntio'n addas ar ffocws manylach Estyn ar ddarllen mewn colegau arbenigol annibynnol

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau sicrhau ansawdd a gwella mewn colegau arbenigol annibynnol trwy arolygu, monitro a ffocws clir ar anghenion dysgwyr. Byddem yn disgwyl gweld darpariaeth a chynnydd cryfach i ddysgwyr ag ADY, cymorth gwell ar gyfer darllen, a mwy o gysondeb o ran sut mae colegau'n ymateb i'r fframwaith arolygu diwygiedig i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae **Atodiad 3** yn nodi ein harolygiadau monitro cynlluniedig yn y sector annibynnol yn 2026-2027.

### Cymraeg i oedolion

Mae'r sector Cymraeg i oedolion yn cynnwys Canolfan Genedlaethol a 10 o ddarparwyr, sy'n cynnig ystod eang o gyrsiau Cymraeg o lefel mynediad i lefel gloywi, sy'n cael eu cyflwyno wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Caiff cynnydd yn erbyn argymhellion ar gyfer darparwyr unigol ei werthuso yn yr arolygiad llawn nesaf o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn cyhoeddi canfyddiadau o'n harolygiad â thema yn canolbwyntio ar y Gymraeg yn y gweithlu addysg
- yn dechrau gwaith maes ar gyfer yr arolygiad blynyddol nesaf â thema, gan samplu darpariaeth ar draws ystod o ddarparwyr Dysgu Cymraeg
- yn cyhoeddi'r cyntaf o'n llythyrau darparwyr unigol tair blynedd yn amlinellu ein gwerthusiadau o agweddau penodol ar eu gwaith

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau gwelliant ar draws y sector Cymraeg i oedolion trwy rannu canfyddiadau clir, creu sylfaen dystiolaeth gref ar draws darparwyr a rhoi adborth

rheolaidd ar agweddau allweddol ar berfformiad. Byddem yn disgwyl gweld dealltwriaeth well o arfer effeithiol, cynllunio gwelliant mwy gwybodus gan ddarparwyr a mwy o gysondeb o ran ansawdd darpariaeth.

### Meithrinfeydd nas cynhelir

Mae 523 o feithrinfeydd nas cynhelir yng Nghymru. Rydym yn arolygu pob lleoliad meithrin nad ydynt yn cael eu rheoli gan ysgolion ac sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar ran-amser i blant tair a phedair oed. Caiff yr arolygiadau hyn eu cynnal ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a chânt eu cynnal o leiaf unwaith yn ystod cylch arolygu chwe blynedd. Ar ôl pob arolygiad, rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau mewn adroddiad ar y cyd ar ein gwefan.

Rydym wedi ymrwymo i'r bartneriaeth gref a sefydlwyd ag AGC dros y pum mlynedd diwethaf a byddwn yn parhau i gydweithio i fireinio a chryfhau ein dull arolygu ar y cyd. Yn 2024–2025, fe wnaethom gomisiynu a chyhoeddi adolygiad annibynnol o'r trefniadau arolygu ar y cyd rhwng Estyn ac AGC. [Adolygiad annibynnol o'r trefniadau arolygu ar y cyd ag Estyn wedi'i gyhoeddi – Estyn]. Wrth ymateb i'w argymhellion, rydym wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr yn AGC i gytuno ar welliannau i'n cydweithio.

Rydym yn bwriadu cyflwyno ein harweiniad arolygu newydd ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser ym mis Medi 2026.

Yn y sector meithrin nas cynhelir, rydym wedi cyflwyno proses gweithgarwch dilynol symlach, a roddwyd ar waith ym mis Ionawr 2025, sy'n disodli'r categorïau blaenorol, sef 'Gwelliant â Ffocws' ac 'Adolygu gan Estyn yn unig' ag un categori unedig, sef 'Gweithgarwch dilynol ar y cyd'. Bydd y trefniadau hyn yn parhau dan y fframwaith arolygu newydd yn y sector hwn o fis Medi 2026 ymlaen.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn parhau i ddatblygu trefniadau arolygu newydd ar y cyd ar gyfer y sector o fis Medi 2026 ymlaen
- yn cyflwyno ein harweiniad arolygu newydd ar y cyd rhwng AGC/Estyn ar gyfer y sector ym mis Medi 2026

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau effeithiolrwydd a chysondeb arolygu mewn meithrinfeydd nas cynhelir trwy gyflwyno trefniadau ac arweiniad newydd ar y cyd ag AGC. Byddem yn disgwyl gweld disgwyliadau cliriach ar gyfer darparwyr, dull arolygu mwy cydgysylltiedig a chymorth cryfach i wella ar draws y sector.

### Addysg Gychwynnol Athrawon

I gymhwyso i fod yn athro yng Nghymru, mae angen ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). Gall myfyrwyr sy'n dymuno ymgymryd â chymhwyster AGA astudio trwy lwybrau amser llawn a rhan-amser.

Ar hyn o bryd, mae chwe darparwr AGA, wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), y mae pob un ohonynt yn gweithredu fel partneriaeth rhwng sefydliad addysg uwch (SAU) ac ysgolion, sy'n cydweithio â'i gilydd i ddarparu addysg a datblygiad proffesiynol athrawon dan hyfforddiant. Mae gan Estyn rôl hollbwysig o ran cynnal a gwella ansawdd AGA. Trwy ein harolygiadau, rydym yn gwerthuso ansawdd ac effaith darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn AGA o ran paratoi athrawon dan hyfforddiant i ymgymryd â dyletswyddau athro newydd gymhwyso. Mae CGA yn gyfrifol am achredu pob rhaglen AGA ar sail meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn rhoi cipolygon hanfodol i CGA o'n harolygiadau o raglenni ynglŷn â chryfderau yn eu darpariaeth a'u harweinyddiaeth, ynghyd ag unrhyw ddiffygion pwysig.

Mae'r arweiniad ar gyfer gweithgarwch dilynol mewn addysg gychwynnol athrawon wedi'i amlinellu yn Sut rydym ni'n arolygu Addysg Gychwynnol Athrawon. Mae'r arweiniad yn hyblyg er mwyn ystyried amrywiaeth eang anghenion partneriaethau yng Nghymru. Rydym yn datgan bod gennym yr hawl i addasu'r arweiniad i fodloni anghenion partneriaethau unigol.

Mae dau fath o weithgarwch dilynol mewn addysg gychwynnol athrawon, sef:

- Yn peri pryder sylweddol ac angen ailarolygiad
- Ymgysylltu manylach gan Estyn

Bydd natur y gweithgarwch dilynol yn amrywio yn ôl cyd-destun y bartneriaeth ac yn dibynnu ar yr agweddau ar waith y bartneriaeth y mae angen eu gwella. Mae ymgysylltu manylach yn broses gefnogol ar gyfer partneriaethau y mae angen cymorth ychwanegol arnynt â'u taith wella. Bydd Estyn yn cydweithio â'r bartneriaeth i gefnogi unrhyw gynllunio gwelliant. Caiff union natur y cymorth hwn ei gynllunio mewn ffordd deilwredig i weddu i amgylchiadau'r bartneriaeth.

### Yn 2026-2027:

- ni fyddwn yn arolygu darparwyr AGA yn ystod y flwyddyn hon na'r flwyddyn academaidd nesaf, gan ein bod wedi cwblhau'r cylch arolygu yn nhymor yr haf 2025
- byddwn yn cynllunio ein fframwaith arolygu newydd ar gyfer AGA ac yn peilota dulliau
- byddwn yn parhau i sefydlu a datblygu rôl newydd yr arolygydd cyswllt AGA ar gyfer pob partneriaeth
- byddwn yn ymgynghori â'r sector i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer arolygu addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2027 ymlaen, yn parhau i gynnal digwyddiadau i

randdeiliaid ar y cyd â CGA ac yn cydweithio'n agos â phartneriaethau AGA trwy eu grwpiau rhanddeiliaid eu hunain
- byddwn yn parhau â'n gwaith i gefnogi'r tri darparwr AGA y mae angen ymgysylltu manylach arnynt

Bydd y gweithgarwch hwn yn cefnogi gwelliant parhaus addysg gychwynnol athrawon trwy ymgysylltiad cryf, trefniadau clir ar gyfer y dyfodol a chymorth targedig, yn ôl yr angen. Byddem yn disgwyl gweld parodrwydd gwell yn y sector ar gyfer y fframwaith arolygu newydd o fis Medi 2027 ymlaen, gweithio cryfach mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, a chynnydd cynaledig mewn darparwyr y mae angen ymgysylltu manylach arnynt.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â CGA a Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth berthnasol am y sector. Rydym yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru â'i hadolygiad o bolisïau sy'n cefnogi AGA, rydym yn aelod o'i Grŵp Strategaeth AGA a'i Grŵp Cynghori ar Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

*Sylwer – bydd arolygydd cyswllt ar gyfer pob partneriaeth AGA. Yr arolygydd cyswllt fydd y cyswllt yn Estyn ar gyfer pob partneriaeth a bydd yn cysylltu â nhw bob tymor i drafod eu gwaith. Mae systemau tebyg wedi'u hen sefydlu yn y sectorau gwasanaethau addysgu llywodraeth leol ac addysg bellach yn Estyn.

### Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae pum carchar ac un sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru. Rydym yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Carchardai EF yn ystod ei harolygiadau, gan ganolbwyntio ar agweddau ar addysg, hyfforddiant a medrau gweithgarwch pwrpasol. Rydym wedi diwygio ein harweiniad ar gyfer arolygu carchardai yn 2025-2026.

Ar ben hynny, mae un cartref diogel i blant yng Nghymru, lle'r ydym yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i asesu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn ystod eu harolygiadau.

#### Yn 2026-2027, byddwn:

- yn cydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EF i ymwreiddio'r trefniadau arolygu newydd yn y sector hwn ymhellach
- yn diwygio ein harweiniad ar gyfer arolygu sefydliadau troseddwyr ifanc ar sail yr arweiniad diwygiedig ar gyfer arolygu carchardai
- yn parhau â'n harolygiadau o'r cartref diogel i blant gydag AGC ac yn diwygio ein harweiniad ar gyfer yr arolygiadau hyn

Lle bo'n berthnasol, byddwn yn cefnogi gwaith dilynol Arolygiaeth Carchardai EF â darparwr drwy ymuno â hi ar ei Hadolygiadau Annibynnol o Gynnydd.

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau ansawdd a chysondeb arolygu yn y sector cyfiawnder trwy gydweithio gwell ac arweiniad wedi'i ddiweddaru. Byddem yn disgwyl gweld trefniadau arolygu cliriach, gwerthuso mwy cyson ar draws lleoliadau a chymorth cryfach i wella dysgu a lles plant a phobl ifanc mewn darpariaeth ddiogel a gwarchodol.

### Gyrfa Cymru a Thwf Swyddi Cymru+

Nid ydym wedi ein hariannu i arolygu gwaith Gyrfa Cymru na'r rhaglen Twf Swyddi Cymru+, ond byddwn yn parhau i drafod eu heffaith ar ddysgwyr a darparwyr yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid perthnasol.

## Darpariaeth a ariennir gan Medr

### Addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau a darpariaeth chweched dosbarth

Mae 12 o golegau addysg bellach yng Nghymru. Mae 13 partneriaeth ranbarthol yn gyfrifol am ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, ochr yn ochr ag Addysg Oedolion Cymru, sy'n gweithredu'n genedlaethol. Mae deg o ddarparwyr prentisiaethau. Mae 132 o ysgolion a gynhelir sydd â darpariaeth chweched dosbarth.

O fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd Medr yn ariannu ac yn cyfarwyddo ein gwaith o ran cyfrifoldeb Medr dros addysg drydyddol. Fel y cyfryw, byddwn yn cynnal, ym mhob cyfnod arolygu chwe blynedd, un arolygiad craidd o bob prif ddarparwr addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a phrentisiaethau ac un arolygiad craidd ac un ymweliad monitro ar gyfer pob ysgol sydd â chweched dosbarth. Byddwn hefyd yn darparu'r hyfforddiant cychwynnol a pharhaus sydd ei angen i sicrhau y gall y gweithgareddau hyn gynnwys arolygwyr cymheiriaid profiadol. Pan nodir fod angen gweithgarwch dilynol ar unrhyw ddarparwr, byddwn yn monitro eu gwelliant yn unol ag arweiniad Medr ac yn diweddaru Medr yn rheolaidd hyd nes iddynt gael eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.



Yn ogystal â'r gweithgarwch arolygu craidd a nodir yn Atodiad 1, mae Atodiad 2 yn darparu manylion am ein hymweliadau interim cynlluniedig. Mae'r ddau atodiad yn nodi gweithgarwch a ariennir gan Medr.

### Yn 2026-2027, byddwn:

- yn llunio adroddiad mewnwelediadau byr ar brentisiaethau mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- yn cydweithio â Medr a darparwyr prentisiaethau i ddatblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer darparwyr prentisiaethau yn barod ar gyfer cylch arolygu newydd a fydd yn dechrau ym mis Medi 2027
- yn parhau i adolygu ac addasu ein trefniadau arolygu mewn partneriaeth â Medr a QAA i adlewyrchu ymrwymiad Medr i ddull trydyddol mwy cydlynus a'i fframwaith ansawdd, sy'n dod i rym o fis Awst 2026 ymlaen
- yn atgyfnerthu ein trefniadau arolygwyr cyswllt ar gyfer colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, fel bod gan bob sefydliad AB un arolygydd cyswllt a'u bod yn cael un ymweliad blynyddol
- yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Medr i gytuno ar ffordd ymlaen pan fydd darparwr mewn perygl o beidio â chydymffurfio â'r Amod Ansawdd a Gwelliant Parhaus

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau goruchwyliaeth a gwella ar draws addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau a darpariaeth chweched dosbarth trwy drefniadau arolygu cliriach, gweithio cryfach mewn partneriaeth ac ymgysylltiad mwy cydgysylltiedig â darparwyr. Byddem yn disgwyl gweld dealluswydd gwell ar berfformiad y sector, mwy o barodrwydd ar gyfer cylchoedd arolygu yn y dyfodol, a chymorth a her fwy

amserol pan fydd ansawdd neu gydymffurfiaeth mewn perygl.

Bydd y dull diwygiedig hwn yn cryfhau ein goruchwyliaeth o arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws sefydliadau addysg bellach ac yn cefnogi cydweithio agosach â Medr a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), wrth barhau i ystyried ansawdd y gwahanol fathau o ddarpariaeth mewn sefydliadau AB.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym yn cymhwyso prosesau sicrhau ansawdd cadarn i'n holl arolygiadau. Mae'r pedair system allweddol ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau fel a ganlyn:

- sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu cyn ei gyhoeddi, gan gynnwys safoni a dilysu gwerthusiadau, canfyddiadau a lefel y gweithgarwch dilynol, os yw'n briodol, a llythyrau sy'n cael eu cyhoeddi ar ôl ymweliadau ar gyfer ymweliadau interim
- sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ac ymweliadau interim trwy ymweliadau safle
- ffurflenni gwerthuso arolygydd i gofnodi gwerthusiad o berfformiad pob arolygydd ychwanegol, arolygydd cymheiriaid, arolygydd lleyg a phartner gwella ysgolion, fel y bo'n briodol
- holiaduron ôl-arolygiad ar gyfer pennaeth darparwr i roi adborth ar agweddau ar y broses arolygu

Mae canfyddiadau pob elfen yn y system sicrhau ansawdd yn bwydo i gronfa ddata sicrhau ansawdd Estyn ac yn llywio ein prosesau hunanwerthuso blynyddol i nodi rhagor o welliannau y gallwn eu gwneud ar draws ein gwaith. Rydym hefyd yn defnyddio'r gwerthusiadau hyn i lywio blaenoriaethau dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer arolygwyr. Caiff y system sicrhau ansawdd ei harchwilio'n rheolaidd, gan roi sicrwydd sylweddol yn fwyaf diweddar ym mis Chwefror 2025. Canfu'r archwiliad fod gan Estyn drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau ansawdd arolygiadau. Ni nododd yr adolygiad unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r prosesau sicrhau ansawdd.

Mae canfyddiadau'r holl weithgareddau sicrhau ansawdd hefyd yn dylanwadu ar ddyfarnu contractau ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Cofrestredig Meithrin, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr lleyg, a lleoli arolygwyr cymheiriaid a phartneriaid gwella ysgolion.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn parhau i fireinio ein systemau data ar gyfer monitro deilliannau ansawdd i wella effeithlonrwydd
- yn adolygu ein gweithdrefnau a'n hadroddiadau ar sicrhau ansawdd arolygiadau (SAAr) trwy ymweliadau safle

- yn datblygu ardal sicrhau ansawdd newydd ar ein gwefan i adlewyrchu ein dull esblygol o arolygu
- yn parhau â'n rhaglen o ddysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod AEF a chyfarwyddwyr cynorthwyol sydd â chyfrifoldebau sicrhau ansawdd ar draws ein holl sectorau yn cyflawni eu rolau'n effeithiol

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau cysondeb, tryloywder ac effeithiolrwydd sicrhau ansawdd arolygu ar draws pob sector. Byddem yn disgwyl gweld monitro ansawdd yn fwy effeithlon, prosesau ac adroddiadau cliriach ar gyfer sicrhau ansawdd, arfer broffesiynol gryfach ymhlith y rhai sy'n arwain sicrhau ansawdd, a mwy o hyder cyhoeddus yng nghadernid ein gwaith arolygu.

## Ysgolion ac UCDau sy'n peri pryder

Byddwn yn parhau â'n gwaith i gefnogi darparwyr sy'n peri pryder, yn enwedig ysgolion uwchradd a phob oed ac UCDau.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn cefnogi ymweliadau cyn Cynlluniau Gweithredu Ôl-arolygiad (CGÔA), gan roi arweiniad ar egwyddorion cynllunio gwelliant yn effeithiol
- yn cefnogi ymweliadau CGÔA
- yn cymryd rhan mewn paneli amlasiantaeth pan fydd awdurdodau lleol wedi trefnu'r rhain
- yn dyrannu AEF bugeiliol i bob ysgol uwchradd a phob oed yn y categori Mesurau Arbennig
- yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol pan fydd darparwr yn debygol o gael ei roi mewn categori ac yn cynnig cyfarfod dilynol â'r Arolygydd Cofnodol
- yn parhau i ddatblygu ymweliadau bugeiliol â rhai ysgolion uwchradd a phob oed a fu yn y categori mesurau arbennig ers cryn amser. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar gynnydd gan yr ysgol a rhai gweithgareddau ar y cyd rhwng staff ysgolion ac AEF wedi'u seilio ar agweddau a nodwyd, fel problemau parhaus â medrau llythrennedd a rhifedd, a phresenoldeb
- yn peilota ac yn parhau i ddatblygu dulliau newydd mewn ysgolion uwchradd a phob oed sydd mewn categori gweithgarwch dilynol, fel cyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr i esbonio'r broses
- yn peilota cynnwys Partneriaid Gwella Ysgolion (PGYau) o awdurdodau lleol mewn ymweliadau monitro mesurau arbennig ag ysgolion uwchradd a phob oed
- yn defnyddio ac yn parhau i ddatblygu'r arweiniad ar gefnogi ysgolion ac UCDau sy'n cael eu rhoi mewn categori

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau cymorth a her i ysgolion ac UCDau mewn categorïau gweithgarwch dilynol trwy gynnig cymorth â ffocws ar gynllunio gwelliannau, cynyddu cydweithio ag awdurdodau lleol a chynnig cymorth bugeiliol mwy teilwredig. Byddem yn disgwyl gweld dealltwriaeth well o brosesau gweithgarwch dilynol, cydweithio cryfach ag awdurdodau lleol, cydweithio parhaus rhwng Estyn a darparwyr sy'n peri pryder, a chynnydd mwy cyson mewn ysgolion uwchradd a phob oed sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

## Cydweithio pellach â chyrff arolygu a chyrff eraill

### Yn 2026-2027, byddwn:

- yn cydweithio ag Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) i rannu arbenigedd a chynyddu cydlyniad rhwng prosesau arolygu ac adolygu ansawdd ar draws darparwyr addysg drydyddol
- yn cydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac arolygiaethau eraill i gryfhau ein dull o arolygu diogelu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhaglen o arolygiadau ar y cyd yn y dyfodol i werthuso effeithiolrwydd ymholiadau amddiffyn plant amlasiantaeth, dan Adran 47 Deddf Plant 1989, i honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol, yn unol ag Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- yn cynnal cysylltiadau strategol a gweithredol cryf ag arolygiaethau addysg a hyfforddiant mewn gwledydd cyfagos, gan gefnogi rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd
- yn chwarae rôl weithredol yng Nghynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI), gan gynnwys:
  - hybu rhannu arfer orau a dysgu oddi wrth systemau arolygu rhyngwladol
  - cynnal gweithdy SICI yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2026 i rannu canlyniadau prosiect trawswladol gydag arolygiaethau yng Nghymru, Norwy a'r Alban ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) mewn arolygu

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau ansawdd, cydlyniad ac effaith arolygu trwy gydweithio'n agosach â chyrff partner yng Nghymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Byddem yn disgwyl gweld dulliau sy'n cyd-fynd â'i gilydd yn well ar draws prosesau arolygu ac adolygu, cydweithio cryfach ar ddiogelu, rhannu mwy o arfer effeithiol ac arloesi, a gweithgarwch arolygu mwy gwybodus sy'n cefnogi gwelliant ar draws sectorau.

## Diogelu

Mae diogelu'n hanfodol i'n gwaith o hyd ac wrth wraidd ein diben. Rydym yn cydnabod bod diogelu'n fwy na set o bolisïau; mae'n ddiwylliant sydd wedi'i ymwreiddio ym mhob agwedd ar waith darparwr. Ym mis Medi 2024, cryfhaom ein dull ar gyfer arolygu diogelu a

byddwn yn parhau i fonitro a mireinio'r dull hwn trwy gydol 2026–2027. Ein ffocws yw gwerthuso pa mor ddwfn y mae diogelu wedi'i ymwreiddio mewn arfer a sicrhau ei fod yn parhau i fod wrth wraidd pob arolygiad.

Bydd diogelu'n hanfodol i'n fframwaith arolygu o hyd a chaiff ei werthuso ym mhob arolygiad, yn unol â'n harweiniad cyhoeddedig. Mae arolygwyr yn ystyried a yw arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf; a yw polisïau a gweithdrefnau'n cydymffurfio â gofynion statudol ac arweiniad Llywodraeth Cymru; ac a yw'r trefniadau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn effeithiol yn ymarferol.

Yn ystod 2026–2027, byddwn yn cryfhau sut rydym yn cael ac yn rhannu deallusrwydd yn systematig â phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Medr, CGA, AGC ac awdurdodau lleol i lywio ein cynllunio ac arfer arolygu. Trwy gydweithio a rhannu deallusrwydd a dysgu, byddwn yn cryfhau ein gwerthusiad o ddiogelu ar draws darparwyr yng Nghymru ac yn hybu mwy o gysondeb, eglurder a chyfrifoldeb ar y cyd.

Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau ein cyfraniad at arfer a llywodraethu diogelu ledled Cymru. Byddwn yn gweithredu ar ganfyddiadau ein hadolygiad mewnol o ddiogelu yn 2026 i sicrhau bod ein systemau, ein dulliau a'n trefniadau sicrwydd yn gadarn o hyd ac yn parhau i wella. Byddwn hefyd yn cynnal archwiliad mewnol o drefniadau diogelu yn 2026-2027 i roi sicrwydd a nodi cyfleoedd i gryfhau ein systemau a'n harferion ymhellach. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â'i Hadolygiad o drefniadau Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb parhaus ar y cyd. Trwy arolygu trylwyr, adroddiadau tryloyw ac ymgysylltiad cydweithredol, byddwn yn helpu i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus ledled Cymru yn dysgu mewn amgylcheddau sy'n ddiogel, yn gefnogol ac yn feithringar.



## Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Llywodraeth Cymru a Medr



Rydym yn cynnig safbwynt cenedlaethol a chynhwysfawr ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan fanteisio ar dystiolaeth sy'n cael ei chasglu trwy ein harolygiadau, adolygiadau thematig a gwaith ymgysylltu. Rydym yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru a Medr, Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Ysgrifenyddion y Cabinet, a rhanddeiliaid eraill i ddarparu cyngor sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n llywio datblygiad polisi a rheoleiddio.

Yn rhan o'n dyletswyddau statudol, rydym yn llunio adroddiad blynyddol ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodebau sector yn gynnar ym mis Hydref 2026, wedi'u dilyn gan yr adroddiad llawn ym mis Ionawr 2027. Disgwylir i'r adroddiad eleni ganolbwyntio ar y themâu allweddol canlynol:

- cynnydd mewn gwyddoniaeth, gan gynnwys dadansoddiad o ddata PISA
- effaith dysgu proffesiynol ar wella ansawdd addysgu a chynnydd dysgwyr mewn lleoliadau, ysgolion, UCDau a cholegau
- datblygu medrau Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg
- llwyddiannau a heriau cefnogi lleoliadau, ysgolion ac UCDau sydd mewn categori gweithgarwch dilynol
- cymorth i ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)
- datblygu'r Celfyddydau Mynegiannol mewn lleoliadau ac ysgolion

- sicrhau bod arferion diogelu effeithiol ar waith

Mae’r eitemau sydd wedi’u cynnwys yn y cylch gwaith ar gyfer 2026-2027 yn adlewyrchu blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a Medr, a chânt eu darparu trwy gyfuniad o waith thematig, cyngor parhaus a gweithgarwch cydweithredol.

**Adolygiadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru**

Yn ystod 2026-2027, byddwn yn darparu’r adolygiadau thematig canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru:

**Adolygiad o Faes Dysgu a Phrofiad: Iechyd a Lles**
Adolygiad arferol. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr ystod oedran o 3 i 16 oed, gan gwmpasu cynllunio’r cwricwlwm, addysgu, asesu a chynnydd dysgwyr, gan dynnu sylw at arfer effeithiol.

**Sut mae ysgolion yn gweithio i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles (gyda ffocws ar effaith y cwricwlwm a'r addysgu)**
Adolygiad arferol. Bydd hwn yn archwilio pwysau’r system a’r effeithiau ar ddysgwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys sut mae’r Grant Datblygu Disgyblion yn cefnogi ac yn gwella addysgu, a’r defnydd o dystiolaeth allanol i lywio dulliau addysgu.

**Datblygu medrau a chymwyseddau digidol dysgwyr**
Adolygiad arferol. Bydd yr adolygiad yn archwilio sut mae ysgolion yn datblygu medrau digidol ar draws y cwricwlwm, rhwystrau rhag manteisio ar dechnoleg a’i defnyddio, ynghyd ag unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar iechyd a lles, gan dynnu sylw at arfer effeithiol.

**Cefnogi ADY mewn addysg gynnar**
Adolygiad arferol. Bydd yr adolygiad yn edrych ar sut mae darparwyr addysg i’r rhai 3 a 4 oed yn gweithredu diwygiadau ADY, yn cydweithio â phartneriaid i nodi ADY, yn cefnogi pontio ac yn cydweithio â theuluoedd.

**Gwrth-hiliaeth mewn ysgolion ac UCDau**
Adolygiad arferol. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso pa mor dda mae ysgolion ac UCDau yn datblygu ac yn ymwreiddio diwylliant gwrth-hiliol, gan gynnwys cyfraniad y cwricwlwm a

sut caiff digwyddiadau hiliol eu nodi a'u cofnodi, sut yr ymatebir iddynt a sut y dysgir ohonynt, gan dynnu sylw at arfer effeithiol.

**Profiadau addysg ôl-16 i ddysgwyr ag ADY (blwyddyn 1 o 2)**
Adolygiad mawr. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar brofiadau dysgwyr ag ADY trwy addysg 16-19 oed, sut mae cynlluniau datblygu unigol yn cefnogi deilliannau da o ran cynnydd a lles dysgwyr, cyngor ac arweiniad ar bontio, hygyrchedd darpariaeth a pharatoi ar gyfer cyrchfannau ôl-19. (Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gefnogi gan Medr, hefyd).

**Gwaith ychwanegol**

Byddwn yn cynnig cyngor parhaus wedi'i seilio ar dystiolaeth o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall trwy gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru a thrwy gyfrannu at weithgorau cenedlaethol, cyngor ysgrifenedig, arweiniad cyhoeddedig ac adroddiadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Dysgu i gefnogi ysgolion ac UCDau sy'n peri pryder, i gefnogi ysgolion â safonau mewn llythrennedd a rhifedd, ac i gefnogi ysgolion i leihau absenoldebau.

Bydd Estyn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod eu monitro a chymorth i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) sy'n peri pryder yn cyd-fynd â chymorth gwella ysgolion a ddarperir gan eraill.



Bydd Estyn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i hybu safonau uchel mewn llythrennedd a rhifedd a hybu dulliau effeithiol o gefnogi presenoldeb.

Byddwn yn cynnal arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru o weithdrefnau diogelu Adran 5.

Byddwn hefyd yn cynnig cyngor a chymorth mewn meysydd eraill yn ôl y gofyn, gan gynnwys:

- cynigion i gau ac ad-drefnu ysgolion
- datblygu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) diwygiedig
- datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus newydd ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr mewn dysgu gydol oes
- cofrestru a monitro ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol yng Nghymru
- gwaith dilynol mewn perthynas ag awdurdodau addysg lleol
- ceisiadau eraill, fel gwybodaeth gefndir ar gyfer cyfarfodydd Gweinidogol a chwestiynau yn y Senedd

## Adolygiadau a ariennir gan Medr

Byddwn yn parhau i weithredu system o arolygwyr cyswllt ar gyfer colegau, darparwyr dysgu oedolion ac awdurdodau lleol ac yn defnyddio hyn i gasglu tystiolaeth i gefnogi Medr yn ei waith sicrwydd.

Yn ystod 2026-2027, byddwn yn darparu'r adroddiad thematig canlynol ar gyfer Medr:

**Dilyniant o Safon UG i U2**
Adolygiad arferol. Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau pan na fydd dysgwyr yn symud ymlaen o gyrsiau UG i U2 mewn unedau chweched dosbarth neu golegau, gan gynnwys y dewis cychwynnol o gwrs UG, cyngor ac arweiniad ac ansawdd y gefnogaeth a ddarperir.

## Gwaith ychwanegol

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â Medr a QAA (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch) i hybu dulliau effeithiol ar y cyd o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant parhaus ar draws darparwyr trydyddol.

Cwblhaom ein cylch o arolygiadau o ddarparwyr prentisiaethau ym mis Gorffennaf 2025. Yn ystod 2026-2027, byddwn yn parhau ag ymweliadau monitro â darparwyr prentisiaethau ac yn darparu adroddiadau Mewnwelediadau ar gyfer Medr ar:

- gwblhau rhaglenni prentisiaeth mewn modd amserol
- cyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol
- cyflwyno adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

Byddwn hefyd yn ymgynghori â Medr a darparwyr prentisiaethau i ddatblygu a pheilota trefniadau arolygu yn y dyfodol i'w cyflwyno o fis Medi 2027 ymlaen.


Ar ben hynny, byddwn yn rhoi cyngor i Medr ac yn cefnogi penderfyniadau trwy gyfarfodydd gyda swyddogion Medr, cyfraniadau i'r Pwyllgor Ansawdd a gweithgorau cenedlaethol, a thrwy gyngor neu adroddiadau ysgrifenedig, gan gynnwys rhannu gwybodaeth o ymgysylltu ag ysgolion sydd â chweched dosbarth, lle bo hynny'n briodol.

Ar sail tystiolaeth sy'n cael ei chasglu o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall, byddwn hefyd yn darparu diweddariadau a chyngor ar y canlynol:

- effaith dysgu proffesiynol ar wella ansawdd addysgu a chynnydd dysgwyr mewn lleoliadau, ysgolion, UCDau a cholegau
- datblygu medrau Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg
- cymorth i ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)
- sicrhau bod arferion diogelu effeithiol ar waith

Mae'r llythyr cylch gwaith llawn a anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at PAEF i'w weld yma. Mae hwn yn cynnwys atodiad yn amlinellu gofynion Medr ar gyfer Estyn yn gysylltiedig â'i gyfrifoldebau dros addysg drydyddol.

## Amcan strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae ein gwaith arolygu a thematig yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwerthuso ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Trwy ddeialog broffesiynol ac argymhellion clir a gwybodus, rydym yn cefnogi gwelliant ar draws y system.

O fis Medi 2026 ymlaen, byddwn yn dechrau rhaglen tair blynedd gyda ffocws manylach ar ddarllen. Rydym yn gwybod bod gormod o ddysgwyr nad ydynt yn ddarllenwyr rhugl a hyderus erbyn iddynt adael yr ysgol neu addysg bellach, ac rydym am helpu i dorri'r cylch hwn. Ein nod yw cefnogi pob darparwr addysg – o leoliadau meithrin nas cynhelir i ysgolion, colegau a gwasanaethau dysgu oedolion – i wella llythrennedd i ddysgwyr ledled Cymru. Byddwn yn cryfhau ein ffocws arolygu ac yn datblygu ystod o adnoddau i helpu i godi safonau ledled y wlad a rhoi'r siawns orau i bob dysgwr lwyddo. Darllen: Dros ddysgwyr, dros Gymru.

Daw pob tîm arolygu â grŵp o arolygwyr ynghyd sydd ag arbenigeddau a phrofiadau gwahanol. Caiff pob tîm arolygu ei arwain naill ai gan AEF, arolygydd cofrestredig neu arolygydd cofrestredig meithrin. Mae rolau amrywiol ein timau i'w gweld ar ein gwefan – Rolau arolygwyr. Byddwn yn parhau i gryfhau dysgu proffesiynol ar gyfer ein gweithlu mewnol ac allanol, gan sicrhau eu bod wedi'u harfogi i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.

Yn 2026–27, byddwn yn cryfhau ac yn ymestyn ein gallu Arolygwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (AADY) ymhellach i sicrhau gwerthusiad cyson o ansawdd uchel o ddarpariaeth ADY ledled Cymru. Gan adeiladu ar ein rhaglen hyfforddiant sefydledig ac effeithiol, byddwn yn dyfnhau arbenigedd trwy ddysgu proffesiynol parhaus, targedig sy'n galluogi AADYau i werthuso darpariaeth yn hyderus ar draws pob sector a lleoliad.

Gan fanteisio ar arbenigedd ymarferwyr profiadol eraill o ysgolion arbennig, UCDau a gwasanaethau arbenigol, bydd gan AADYau rôl fwyfwy annatod mewn gweithgarwch arolygu. Bydd hyn yn cynnwys ffocws cryfach ar werthuso darpariaeth arbenigol mewn lleoliadau prif ffrwd, gan ein galluogi i nodi arfer effeithiol, tynnu sylw at feysydd i'w gwella a darparu darlun cenedlaethol cliriach o ba mor dda y mae anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael eu bodloni.

Byddwn hefyd yn datblygu ymhellach ein harlwy hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau bod arolygwyr yn cynnal dealltwriaeth gadarn a chyfredol o gyfrifoldebau statudol, risgiau sy'n dod i'r amlwg ac arfer ddiogelu effeithiol. Bydd hyn yn dyfnhau hyder proffesiynol, yn cryfhau trylwyredd gwerthuso ac yn sicrhau bod diogelu'n parhau i fod wrth wraidd gweithgarwch arolygu ym mhob sector.

Mae arolygwyr cymheiriaid yn ganolog i feithrin dealltwriaeth gytûn a disgwyliadau clir ar draws addysg a hyfforddiant. Mae tua 1,000 o arolygwyr cymheiriaid yn gweithredu ar draws sectorau, gan gryfhau eu harbenigedd trwy ddod i gysylltiad ag arferion arolygu amrywiol a chyfrannu at allu'r sector a system sy'n hunanwella. Ochr yn ochr â gweithgarwch arolygu craidd, mae arolygwyr cymheiriaid llwybr yn cymryd rhan mewn ymweliadau interim ag ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, a chaiff y dull hwn ei adolygu'n rhan o'r gwerthusiad canol cylch.



Mae fforymau rhanddeiliaid a grwpiau cyfeirio – sy'n seiliedig ar sectorau ac yn canolbwyntio ar brosiectau – yn helpu i lunio ein gwaith trwy alluogi ymgysylltiad dyfnach ar faterion allweddol a chynnig mewnwelediadau y tu hwnt i arolygu. Rydym wedi ymrwymo i ehangu amrywiaeth y gynrychiolaeth yn y grwpiau hyn er mwyn sicrhau bod ystod ehangach o leisiau yn llywio ein gwaith.

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn cydweithio â fforymau a grwpiau llywio Medr a Llywodraeth Cymru i gefnogi a llywio polisi ac arfer addysg a hyfforddiant
- yn lansio ffocws manylach tair blynedd ar ddarllen ar draws yr holl weithgarwch arolygu, ochr yn ochr â rhaglen o adnoddau i helpu i godi safonau ledled Cymru
- yn defnyddio mewnwelediadau o arolygon ar farn rhanddeiliaid am Estyn – yn enwedig ymarferwyr ystafell ddosbarth ac arweinwyr canol – i gryfhau ymgysylltiad, ychwanegu gwerthu a chynyddu effaith ein gwaith
- yn archwilio ac yn ehangu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gweminarau Estyn yn Fyw a chyfres podlediadau Sgwrs
- yn ymgysylltu'n rheolaidd â fforymau rhanddeiliaid a grwpiau cyfeirio ar draws pob sector i gasglu mewnwelediadau a sicrhau bod ein dull yn parhau i ymateb i newid
- yn nodi, cydnabod a rhannu arfer effeithiol o arolygiadau i ysbrydoli a chefnogi gwelliant ar draws y system
- yn recriwtio pedwaredd garfan i'n rhaglen datblygu arweinwyr ar gyfer ymarferwyr o leiafrifoedd ethnig, gan gryfhau gallu, amrywiaeth a chyfranogiad mewn arolygu
- yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus i'n gweithlu mewnol ac allanol i gefnogi arolygu ac ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, gan ganolbwyntio eleni ar gryfhau ein harlwy diogelu ac ehangu gallu AADYau
- yn parhau i ddod ag arolygwyr newydd i'n gweithlu allanol, gan gynnwys:
  - adolygu'r cynllun peilot o ddefnyddio Partneriaid Gwella Ysgolion mewn ymweliadau interim uwchradd a phob oed, a diwygio'r trefniadau, yn ôl yr angen
  - ymestyn y defnydd o arolygwyr cymheiriaid llwybr, trwy eu cynnwys yn aelodau'r tîm mewn ymweliadau interim yn y sector cynradd

Bydd y gweithgarwch hwn yn cryfhau'r gallu i wella ar draws y system trwy ddefnyddio tystiolaeth arolygu, dysgu proffesiynol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio polisi ac arfer ledled Cymru. Byddem yn disgwyl gweld safonau darllen cryfach, rhannu arfer effeithiol yn ehangach, arbenigedd gwell mewn diogelu ac ADY, mwy o amrywiaeth ymhlith y gweithlu a mwy o allu mewn arolygu, ynghyd ag ymgysylltiad mwy ymatebol a dylanwadol ag ymarferwyr a phartneriaid ar draws y system addysg a hyfforddiant.

## Ein dull



Mae ein gweithlu'n cynnwys ein tîm rheoli, staff canolog ac arolygwyr. Rydym hefyd yn hyfforddi ac yn defnyddio cronfa ehangach o bobl i gefnogi gweithgarwch arolygu, gan gynnwys arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid sy'n weithwyr proffesiynol sy'n ymarfer mewn addysg a hyfforddiant, arolygwyr partneriaid gwella awdurdodau lleol, arolygwyr lleyg ac enwebeion darparwyr. Lle bo modd, rydym yn cefnogi cyfleoedd am secondiadau i mewn ac allan o'r sefydliad i rannu arbenigedd a chryfhau gallu.

Mae ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys byrddau, pwyllgorau a grwpiau ategol, ynghyd â'n fframwaith sicrwydd, yn darparu sylfaen gref ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau strategol a gweithredu fel sefydliad effeithiol, sy'n cael ei reoli'n dda. Mae aelodau anweithredol y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn chwarae rôl allweddol o ran darparu craffu, her a chymorth annibynnol i'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am ein rôl, ein cyfrifoldebau a'r ffyrdd o weithio ar gael ar ein gwefan, Amdanom ni.

Yn unol ag egwyddorion A Modern Civil Service, rydym wedi ymrwymo i adeiladu gweithlu medrus, blaengar ac uchelgeisiol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn datblygu staff, gwella ein systemau a'n prosesau i gynyddu effeithlonrwydd, a chryfhau sut rydym yn defnyddio data a thystiolaeth i wella ein heffaith. Rydym hefyd yn archwilio cyfleoedd i ehangu amrywiaeth ein gweithlu.

Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o gyflawni ein

hamcanion strategol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cwmpasu sut rydym yn ystyried cydraddoldeb wrth arolygu a sut byddwn yn sicrhau bod ein staff ein hunain a'r rhai y mae gennym gontractau â nhw yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal. Rhoddodd yr archwiliad mewnol o'n Cynllunio Cydraddoldeb Strategol ym mis Chwefror 2026 sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sero net a'n nod yw lleihau ein heffaith amgylcheddol trwy ymwreiddio arferion cynaliadwyedd ar draws ein gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae ein polisi iaith Gymraeg yn sail i'n hymrwymiad i weithio'n ddwyieithog ac yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â rhanddeiliaid yn unol â'u dewis iaith.

### Strategaeth Pobl

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn dylunio a chyflawni ein strategaeth pobl yn 2026–2027, gan ganolbwyntio ar alluogi ein staff i wneud penderfyniadau hyderus a gwybodus sy'n ychwanegu gwerth i'n rhanddeiliaid
- yn cynnal ein hymrwymiad i ddysgu a datblygu, gan gefnogi ein pobl a'r sefydlu i dyfu, addasu ac arloesi
- yn cydweithio'n agos â staff i ddeall canfyddiadau Arolwg Pobl 2025 a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd

### Strategaeth data a digidol

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn parhau i foderneiddio ein seilwaith TG i gryfhau integreiddio a gwydnwch systemau
- yn gwella ein hofferynnau rheoli adnoddau i gefnogi cynllunio a defnydd mwy effeithiol
- yn cryfhau trefniadau rheoli gwybodaeth i wella'r gallu i fanteisio ar wybodaeth a dysgu sefydliadol
- yn parhau i brofi'r defnydd o AI cynhyrchiol a, lle mae'n ychwanegu gwerth, ymestyn ei defnydd ar draws y sefydliad

### Cyfrifoldeb statudol a chorfforaethol

Byddwn yn cynnal ffocws cryf ar gyflawni ein rhwymedigaethau statudol a chyflawni cyfrifoldebau corfforaethol allweddol, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, safonau'r Gymraeg a chynaliadwyedd.

### Y Gymraeg

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn cadarnhau ein Cynllun Strategol y Gymraeg cyfredol a'i roi ar waith
- yn cyflwyno polisi cynhwysfawr ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn Estyn, yn unol â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg
- yn cynnal ein harolwg blynyddol o fedrau iaith aelodau staff
- yn llunio strategaeth dwy i dair blynedd ar gyfer hyfforddiant Cymraeg i staff
- yn parhau i beilota ein cynllun mentora newydd ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg (a lansiwyd ym mis Ionawr 2026)
- yn llunio ein hadroddiad blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn, i'w gyhoeddi ar y wefan

Bydd gweithgor y Gymraeg yn parhau i gyfarfod a monitro effaith yr uchod, yn ogystal â monitro ein cydymffurfiaeth gyfreithiol â Safonau'r Gymraeg.
Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2024-2025

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn cwblhau adolygiad diwedd blwyddyn o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028
- yn datblygu cynllun gweithredu i ddatblygu'r gwaith sydd ei angen i roi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith
- yn uwchraddio ein statws hyderus o ran anabledd i lefel 3
- yn parhau i ddatblygu ein dull ar gyfer polisïau hawdd eu darllen

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn 2024-2028.

### Cynaliadwyedd

**Yn 2026-2027, byddwn:**

- yn ceisio ailachrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol a chamau gweithredu i ddeall, monitro a lleihau ein heffeithiau amgylcheddol
- yn cyhoeddi ein Hadroddiad Amgylcheddol 2026, gan roi sicrwydd ar ein rheolaeth amgylcheddol a'n cynnydd tuag at nodau cynaliadwyedd
- yn llunio ein hadroddiad sero net ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan amlinellu ein cyfraniad at amcanion cynaliadwyedd cenedlaethol

[Adroddiad Amgylcheddol Estyn 2025](#)

Bydd y gweithgarwch a ddisgrifir yn yr adran hon yn cryfhau gallu Estyn i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chynhwysol o ansawdd uchel, trwy fuddsoddi yn ein pobl, ein systemau a'n gallu sefydliadol. Byddem yn disgwyl gweld staff mwy hyderus a galluog, defnydd gwell o dechnoleg a gwybodaeth, arferion cryfach o ran y Gymraeg a chydraddoldeb, a chynnydd parhaus o ran cynaliadwyedd amgylcheddol, y bydd pob un ohonynt yn ein helpu i weithio'n fwy effeithiol ac yn ychwanegu mwy o werth i randdeiliaid.



## Ein cyllideb

Yn 2026-2027, rydym yn bwriadu defnyddio cyfanswm cyllideb adnoddau o £18.704 miliwn i gyflawni ein rhaglen arolygu ac adrodd statudol, ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau ymgysylltu, gwella a chorfforaethol ehangach. Caiff hyn ei ariannu'n bennaf trwy £16.240 miliwn o gyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru a £2.056 miliwn gan Medr sy'n ymwneud â'n gwaith ôl-16 mewn addysg bellach, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned a darpariaeth chweched dosbarth. Rydym hefyd yn disgwyl £0.408 miliwn o gyllid grant ychwanegol i gefnogi gwaith penodol sydd â blaenoriaeth, gan gynnwys cefnogi anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg y blynyddoedd cynnar, gwrth-hiliaeth

mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a gweithgarwch gwella'r sector yn y sector ôl-16.

Ein gwariant cynlluniedig ar adnoddau yw £18.564 miliwn, sy'n darparu £0.140 miliwn o hyblygrwydd i'n helpu i reoli pwysau sy'n dod i'r amlwg a chynnal darpariaeth a hyblygrwydd yn ystod y flwyddyn. Caiff perfformiad ariannol ei adolygu a'i herio trwy gydol y flwyddyn gan y Grŵp Gweithredol a'r Grŵp Rheoli Strategol, gyda goruchwyliaeth ychwanegol gan y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.




Mae'r rhan fwyaf o'n cyllideb yn canolbwyntio'n fwriadol ar ddarpariaeth rheng flaen a'r gallu sydd ei angen i gadw gwaith arolygu a gwella yn gryf, yn gyson ac yn ymatebol i newid. Caiff tuag £15.77 miliwn (tuag 85 y cant) ei fuddsoddi mewn pobl: sef £14.54 miliwn mewn staffio, ynghyd ag £1.23 miliwn ar gyfer gallu arolygu dan gontract i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgarwch arolygu cynlluniedig ar draws sectorau. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiadau'r cynllun blynyddol i gynnal adolygiad canol cylch o drefniadau arolygu a chryfhau arfer arolygu diogelu, ochr yn ochr â datblygu a chyflwyno trefniadau arolygu newydd (gan gynnwys prentisiaethau, addysg gychwynnol athrawon a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2026 ymlaen) ac ymwreiddio adroddiadau i ddysgwyr.

Rydym hefyd wedi diogelu buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol, fel y gall ein staff ac arolygwyr dan gontract gymhwyso fframweithiau'n gyson ac yn adeiladol: mae'r gyllideb yn cynnwys £0.173 miliwn ar gyfer hyfforddiant staff a £0.114 miliwn ar gyfer hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag arolygiadau i arolygwyr dan gontract (gan gynnwys arolygwyr

cymheiriaid ac arolygwyr lleyg). Ochr yn ochr â hyn, caiff ein strategaeth data a digidol ei chefnogi trwy £0.867 miliwn o gostau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i foderneiddio a chynnal seilwaith a systemau, cryfhau integreiddio a gwydnwch, a pharhau i brofi deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, lle mae'n ychwanegu gwerth.

**Tabl 1 Cyllid craidd, dibrisiant a chyllid cyfalaf yn ôl ffynhonnell.** Sylwer nad yw grantiau a ffynonellau incwm eraill yn cael eu dangos.

| Ffynhonnell | Cyllid craidd ar gyfer costau rhedeg £m | Dibrisiant £m | Cyllid cyfalaf £m |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 16.240 | 0.276 | 0.250 |
| Medr | 2.056 | - | - |
| Cyllid grant ychwanegol (i'w gadarnhau) | 0.408 | | |
| **Cyfanswm** | **18.704** | **0.276** | **0.250** |

## Monitro ein perfformiad

Rydym yn llunio cynllun blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, sy'n cael ei gymeradwyo gan Brif Weinidog Senedd Cymru wedi hynny. Eleni, oherwydd newid yn y ffordd y cawn ein hariannu, bydd hefyd yn cael ei gymeradwyo gan Brif Swyddog Gweithredol Medr. Rydym yn ymgynghori'n fewnol â staff ac unedau ac yn allanol â swyddogion Llywodraeth Cymru a Medr ar ddrafftiau cynnar. Mae ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac yn nodi ein cynnydd wrth gyflawni cynllun y flwyddyn flaenorol ac yn cynnwys set lawn o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Yn 2026–2027, byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, gwerthuso ac adrodd ar ein perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i grwpiau llywodraethu allweddol, gan gynnwys y Grŵp Gweithredol, y Grŵp Arweinyddiaeth Arolygu, y Grŵp Rheoli Strategol a'r Bwrdd Strategaeth, gan ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Ar ben hynny, caiff adroddiadau archwilio mewnol eu rhannu â'r Grŵp Gweithredol, y Grŵp Rheoli Strategol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rydym wedi sefydlu set o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel i fesur cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Caiff y rhain eu cefnogi gan ystod ehangach o ddangosyddion rheoli gweithredol, yr adroddir ar lawer ohonynt yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys trwy ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.


GWIR GWEITHGAR GWYCH
RHYDYWAUN

.

**Dangosyddion perfformiad allweddol:**

**AS1 – Sicrhau atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr ein gwasanaethau a chynyddu gallu o ran darparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2026-2027 |
|---|---|
| a) Canran yr arolygiadau a gwblhawyd a oedd yn bodloni'r gweithgarwch arolygu statudol cynlluniedig a amlinellwyd yn ein cynllun blynyddol | 100% |
| b) Defnyddio arolygwyr cymheiriaid ym mhob arolygiad craidd, yn unol â safonau Estyn | O leiaf un arolygydd cymheiriaid ym mhob arolygiad |
| c) Defnyddio arolygwyr lleyg ym mhob arolygiad craidd o ysgolion ac UCDau, yn unol â safonau Estyn | Un arolygydd lleyg ym mhob arolygiad ysgol ac UCD |

**AS1 / AS3 – Sicrhau bod profiad darparwyr o arolygu yn broses gadarnhaol sy'n hybu gwelliant**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2026-2027 |
|---|---|
| Canran y darparwyr hynny sy'n llenwi holiadur ôl-arolygiad sy'n nodi eu bodlonrwydd ar ôl arolygiad:<br>a. Bod arolygwyr wedi rhoi adborth defnyddiol yn ystod yr arolygiad trwy nodi cryfderau perthnasol a meysydd i'w gwella (Holiadur ôl-arolygiad (HOA1 – C15)) | 97% |
| b. O ran dibynadwyedd ac annibyniaeth ein barnau (HOA2 – C22) | 97% |
| c. Bod yr arolygiad wedi'u helpu i gynllunio ar gyfer gwella (HOA2 – C19) | 97% |

**AS1 / AS3 – Datblygu ein trefniadau gweithio â Medr, sydd â'r nod o hybu mwy o gydlyniad a chydweithio ar draws darpariaeth ôl-16**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2026-2027 |
|---|---|
| Darparu arolygiadau a gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag arolygu, a ariennir gan Medr, yn ystod blwyddyn gyntaf y trefniadau newydd | 31 Mawrth 2027 |

**AS2 / AS3 – Sicrhau bod ein digwyddiadau a'n hadnoddau i randdeiliaid yn cynyddu effaith gadarnhaol gwaith Estyn ac yn sbarduno gwelliant ar draws y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2026-2027 |
|---|---|
| a) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein digwyddiadau i randdeiliaid yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn | a) 96% |
| b) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod cyfathrebu Estyn yn gadarnhaol | b) 55% |
| c) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn y modd y caiff gwasanaethau addysg a hyfforddiant a datblygiad polisi eu darparu yng Nghymru | c) 55% |
| ch) Nifer gyfunol y defnyddwyr sy'n cyrchu ein hadnoddau gwella allweddol trwy ein gwefan (Adroddiad Blynyddol, arfer effeithiol, podlediadau, adroddiadau thematig) yn ystod y cyfnod adrodd | ch) Targed blynyddol o 20,000 |
| d) Nifer yr edrychiadau ar ein hadnoddau amlgyfrwng ar ein sianel YouTube | d) Targed blynyddol o 10,000 |
| dd) Cyfradd clicio drwodd ar ein cylchlythyr bob hanner tymor i randdeiliaid allanol (caiff hwn ei ddosbarthu i fwy na 2,500 o gysylltiadau, gan amlygu penawdau a chyhoeddiadau cyfamserol) | dd) Cyfradd clicio drwodd: 7%<br>(2-3% yw cyfartaledd y diwydiant) |

## Ein dull – Creu a chynnal gweithlu ymgysylltiedig a medrus

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2026-2027 |
|---|---|
| Canran gadarnhaol yn yr Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil | Ar gyfer yr arolwg diweddaraf: |
| a) sgôr mynegai ymgysylltiad cyflogeion (EEI) | Yn y chwartel uchaf |
| b) sgôr y thema dysgu a datblygiad | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol |
| c) Cyflwyno polisi rhagweithiol i ddatblygu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn Estyn | 31 Mawrth 2027 |

# Atodiad 1: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2026-2027

## A ariennir gan Lywodraeth Cymru

**Gweithgarwch arolygu cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol – 2026-2027 (blwyddyn ariannol)**

| | | Nifer gynlluniedig yr arolygiadau sy'n arwain at adroddiadau[1] | | |
|---|---|---|---|---|
| **Uned arolygu** | **Nifer y darparwyr (2026)** | **Haf 2026** | **Hydref 2026** | **Gwanwyn 2027** |
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir[2] | 523 | 30 | 30 | 30 |
| Ysgolion cynradd | 1198 | 66 | 72 | 68 |
| Ysgolion uwchradd[3] | 173 | 5 | 11 | 11 |
| Ysgolion pob oed[3] | 31 | 2 | 2 | 1 |
| Ysgolion arbennig a gynhelir | 39 | 1 | 2 | 1 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 25 | 0 | 2 | 1 |
| Ysgolion arbenigol ADY annibynnol | 45 | 1 | 3 | 2 |
| Ysgolion uwchradd annibynnol | 7 | 0 | 0 | 1 |
| Ysgolion cynradd annibynnol | 6 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion pob oed annibynnol | 19 | 1 | 1 | 1 |
| Colegau arbenigol annibynnol | 10 | 0 | 0 | 1 |
| Gwasanaethau addysg llywodraeth leol | 22 | 1 | 1 | 1 |
| Arolygiadau gwaith ieuenctid | 22 | 1 | 1 | 1 |
| Partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) | 6 | 0 | 0 | 0 |
| Twf Swyddi Cymru+ | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Cymraeg i Oedolion (CiO) – 10 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg ac un Ganolfan Genedlaethol | 10 | 0 | 0 | 1 |
| Trochi Cymraeg | 4 | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | | 110 | 127 | 124 |

**CYFANSWM CYFFREDINOL = 361** (gweler troednodyn 3 isod)

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 04/03/2026.

(2) Caiff yr arolygiadau hyn eu cyflawni ar y cyd ag AGC.

(3) Rydym yn cynnal un arolygiad ac yn llunio un adroddiad sy'n cwmpasu'r elfen chweched dosbarth a ariennir gan Medr a'r elfen oedran ysgol gorfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arolygiadau o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed

a gynhelir.

# A ariennir gan Medr

**Gweithgarwch arolygu cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol – 2026-2027 (blwyddyn ariannol)**

**Nifer gynlluniedig yr arolygiadau sy'n arwain at adroddiadau** (1)

| Uned arolygu | Nifer y darparwyr (2026) | Haf 2026 | Hydref 2026 | Gwanwyn 2027 |
|---|---|---|---|---|
| Sefydliadau addysg bellach | 12 | 0 | 0 | 2 |
| Darparwyr prentisiaethau[(2)] | 10 | 0 | 0 | 0 |
| Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) (gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru) | 14 | 1 | 1 | 2 |
| Chweched dosbarth – ysgolion uwchradd[(3)] | 115 | 1 | 6 | 6 |
| Chweched dosbarth – ysgolion pob oed[(3)] | 17 | 2 | 0 | 0 |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 04/03/2026.

(2) Ni fyddwn yn cynnal arolygiadau craidd yn y sector hwn eleni; fodd bynnag, byddwn yn cynnal ymweliadau monitro â phob darparwr prentisiaethau yn ystod y flwyddyn.

(3) Mae'r ffigurau hyn yn is-set o'r gweithgarwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cynnal un arolygiad ac yn llunio un adroddiad sy'n cwmpasu'r elfen chweched dosbarth a ariennir gan Medr a'r elfen oedran ysgol gorfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arolygiadau o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir.

# Atodiad 2: Ymweliadau interim cynlluniedig ag ysgolion a gynhelir ac UCDau 2026-2027

## A ariennir gan Lywodraeth Cymru

**Gweithgarwch cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2026-2027 (blwyddyn ariannol)**

**Nifer gynlluniedig yr ymweliadau interim (Blynyddol)** [(1)]

| Uned arolygu | Haf 2026 | Hydref 2026 | Gwanwyn 2027 |
|---|---|---|---|
| Ysgolion cynradd | 56 | 80 | 64 |
| Ysgolion uwchradd[(2)] | 7 | 8 | 10 |
| Ysgolion pob oed[(2)] | 1 | 1 | 1 |
| Ysgolion arbennig a gynhelir | 3 | 3 | 1 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 0 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | 65 | 99 | 79 |

**CYFANSWM CYFFREDINOL = 243** (gweler troednodyn 2 isod)

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 04/03/2026.
(2) Rydym yn cynnal un arolygiad ac yn llunio un adroddiad sy’n cwmpasu’r elfen chweched dosbarth a ariennir gan Medr a’r elfen oedran ysgol gorfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arolygiadau o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir.

Sylwer: Nid yw darparwyr unigol wedi’u pennu eto ar gyfer ymweliadau interim

## A ariennir gan Medr

**Gweithgarwch cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2026-2027 (blwyddyn ariannol)**

**Nifer gynlluniedig yr ymweliadau interim (Blynyddol)** [(1)]

| Uned arolygu | Haf 2026 | Hydref 2026 | Gwanwyn 2027 |
|---|---|---|---|
| Chweched dosbarth – ysgolion uwchradd[(2)] | 7 | 4 | 7 |
| Chweched dosbarth – ysgolion pob oed[(2)] | 0 | 1 | 1 |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 04/03/2026.
(2) Mae’r ffigurau hyn yn is-set o’r gweithgarwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cynnal un arolygiad ac yn llunio un adroddiad sy’n cwmpasu’r elfen chweched dosbarth a ariennir gan Medr a’r elfen oedran ysgol gorfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arolygiadau o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir.

Sylwer: Nid yw darparwyr unigol wedi’u pennu eto ar gyfer ymweliadau interim

# Atodiad 3: Arolygiadau monitro cynllunedig yn y sector annibynnol 2026-2027

**Arolygiadau monitro cynlluniedig yn y sector annibynnol gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol – 2026-2027 (blwyddyn ariannol)**

**Nifer gynlluniedig yr arolygiadau monitro (Blynyddol)** (1)

| Uned arolygu | Haf 2026 | Hydref 2026 | Gwanwyn 2027 |
|---|---|---|---|
| Ysgolion arbenigol ADY annibynnol | 4 | 4 | 3 |
| Ysgolion uwchradd annibynnol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion cynradd annibynnol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion pob oed annibynnol | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** | **5** | **4** |

**CYFANSWM CYFFREDINOL = 13**

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 04/03/2026.

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau am y cynllun blynyddol hwn, y gellir eu hanfon atom drwy'r e-bost i adborth@estyn.llyw.cymru**

**Caiff y cynllun blynyddol hwn ei gyflwyno at sylw Prif Weinidog Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddo.**